Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru / Future Generations Commissioner for Wales
Cyngor Celfyddydau Cymru / Arts Council of Wales

# Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

## Diogelwr Taith

DRAFT

### Beth yw Diogelwr Taith?

Mae diogelwyr taith yn egluro beth sy'n bosibl i sefydliadau ei gyflawni ar eu 'taith' i gyfrannu tuag at y nodau llesiant a restrir yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Maent yn nodi'r camau y dylai cyrff cyhoeddus eu cymryd ar wahanol gyfnodau yn ystod eu taith, gan symud ymlaen o wneud newidiadau syml tuag at arwain y ffordd.

Mae'n bwysig bod y diogelwyr taith yn cael eu gweld fel set, gan fod gan lawer o gamau effeithiau a buddiannau ar draws nodau a phynciau. Bydd y set o ddiogelwyr taith yn esblygu dros amser a bydd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn eu defnyddio i wirio cynnydd cyrff cyhoeddus wrth iddynt gwrdd â'r dyletswyddau a nodir yn y Ddeddf.

Does dim rhaid i'r diogelwyr taith fod yn unionlin; mewn rhai amgylchiadau gall y bydd 'newid syml' neu 'bod yn fwy anturus' yn fwy priodol nag 'arwain y ffordd'; tra, weithiau gellir gweld symudiad o newid syml tuag at arwain y ffordd fel proses gronnus.

Mae pob diogelwr taith yn cynnwys camau mewn tri chyfnod:

| Gwneud Newidiadau Syml | Bod yn Fwy Anturus | Arwain y Ffordd |
|---|---|---|
| - Dylai'r camau hyn fod yn gyflym ac yn hawdd eu gweithredu, yn isel mewn cost a risg.<br>- Maent yn 'ffrwythau sy'n hawdd eu cyrraedd', camau sydd wedi eu cymryd a'u profi, a'r risg o fethu'n isel. Maent yn ysgogi ac yn ennyn ymgyfraniad pobl, gan alinio'r agendâu i wahanol adrannau.<br>- Maent yn gamau a fedr ddigwydd o fewn eich sefydliad chi eich hunan fel lle da i gychwyn. | - Mae'r camau hyn yn golygu camu allan o'r meddylfryd 'busnes-fel-arfer' a gweithredu i newid y dull y mae pethau'n cael eu gwneud ar hyn o bryd.<br>- Byddant yn arwydd o gynnydd cynnar tuag at newid ehangach.<br>- Byddant yn golygu cymryd risgiau wedi eu rheoli'n dda a chreu diwylliant uchelgeisiol.<br>- Yn ogystal â'r camau y gall eich sefydliad eu cymryd, bydd y camau hefyd yn ymwneud â'r modd y gallwch alluogi sefydliadau eraill i newid. | - Mae'r camau hyn yn rhan o newid systemig, trawsffurfiol i'r modd y mae pethau bod amser wedi cael eu gwneud.<br>- Bydd yn ofynnol iddynt ail-ddosbarthu a chrynhoi adnoddau, a chael amser i roi'r newidiadau yn eu lle.<br>- Yn bennaf oll byddant yn gofyn am gydweithio gyda sefydliadau a sectorau eraill.<br>- Mae'r camau hyn yn arloesol, yn ysbrydoledig a chydweithredol, yn rhoi'r Ddeddf ar waith ar draws portffolios mwy i ennill y Gymru yr ydym ei dymuno ei chreu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. |

# Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

## Diogelwr Taith

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru / Future Generations Commissioner for Wales

Cyngor Celfyddydau Cymru / Arts Council of Wales

Yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, diffinnir y nod hwn fel "cymdeithas sy'n hybu a diogelu diwylliant, treftadaeth a'r iaith Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, chwaraeon a gweithgareddau oriau hamdden".

Mae angen mwy o gymorth traws-sector i gryfhau cyfranogiad mewn, ac ymgysylltiad â diwylliant ac iaith, ac i ddeall eu rolau sylfaenol mewn cyfrannu tuag at lesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.

Mae diwylliant ac iaith yn cynnig sgiliau mwy meddal sy'n ofynnol ar gyfer meddwl yn greadigol am y dyfodol.

Defnyddir diwylliant yn y ddogfen hon fel term sy'n cwmpasu archifau, celfyddydau, iaith, llyfrgelloedd, amgueddfeydd, chwarae a chwaraeon.

### GALLUOGWYR

Mae cyflawni'r nod hwn yn fwy tebygol o ddigwydd:

- Pan fydd sefydliadau'n deall sut i fanteisio i'r eithaf ar asedau fel llyfrgelloedd, cyfleusterau chwarae, amgueddfeydd, orielau, cyfleusterau chwaraeon, sefydliadau celf ac adeiladau hanesyddol.
- Pan fydd yna ddealltwriaeth o botensial creadigrwydd (yn arbennig ymhlith pobl broffesiynol ddiwylliannol)
- i gynorthwyo newid mewn llunio polisi a'r gymdeithas ehangach.
- Pan fydd datblygiad busnes mewn trefi a dinasoedd yn cael ei adeiladu o gwmpas eu cynnig diwylliannol.
- Pan fydd partneriaethau arloesol ar gael sy'n caniatáu i ddiwylliant fod yn fwy gweladwy mewn bywyd bob dydd
- er enghraifft, cysylltu'r agendâu diwylliannol ac iechyd.
- Pan fydd prosiectau o'r gorffennol yn dangos effaith hirdymor buddsoddi mewn diwylliant ac iaith.

### ANALLUOGWYR

Mae cyflawni'r nod yn fwy annhebygol o ddigwydd:

- Pan na fydd dealltwriaeth neu werthfawrogiad o gyfraniad diwylliant a'r Gymraeg i ganlyniadau ehangach a'r agenda atal.
- Pan fydd cymorth tymor byr neu ariannu ar gyfer prosiectau a gyfyngir gan amser neu brosiectau peilot, yn lleihau'r cyfle ar gyfer effaith parhaol.
- Pan fydd tystiolaeth neu arwyddion yn gyfyng ar gyfer 'profi' gwerth ac effaith.
- Pan fydd gweithgareddau diwylliannol a ieithyddol yn digwydd mewn seilos.
- Pan na fydd darlun llawn o asedau diwylliannol lleol yn bodoli (yn cynnwys adeiladau, mannau agored a phobl) a phan na fydd cysylltiad rhyngddynt â darpariaeth amcanion ehangach.

Mae'r diogelwr taith hwn yn nodi ble mae camau'n cyfrannu tuag at y nodau llesiant eraill, gan ddefnyddio'r eiconau a restrir isod:

Cysylltiad â nodau/ dulliau o weithio

- (P) Llewyrchus
- (R) Cydnerth
- (H) Iachach
- (E) Cyfartal
- (CC) Cydlyniad Cymunedol
- (CW) Diwylliant a'r iaith Gymraeg
- (G) Byd-eang
- (I) Ymgyfraniad

DRAFT

**Cynorthwyo'r Gymraeg**

**Cyfrannu tuag at uchelgais Llywodraeth Cymru i ennill 1m o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 drwy ddatblygu cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith, tyfu sgiliau a meithrin mwy o ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad o fanteision bod yn rhan o genedl amlieithog.**

Diffinio'r mater:
Yn ôl ystadegau'r cyfrifiad, mae nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg wedi gostwng o 582,000 yn 2001 i 562,000 yn 2011, er gwaethaf y cynnydd ym maint y boblogaeth, gan ddangos mai dim ond 19% o'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg. Mae hyn yn llawer is na tharged Llywodraeth Cymru o 1m o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050

Mae ymchwil diweddar o Ganada'n dangos gwerth dwyieithrwydd nid yn unig i'r economi ond i unigolion drwy fanteision gwybyddol a chymdeithasol. Mae angen i ni ddarganfod dulliau o wella'r canfyddiad o iaith, ei wneud yn rhan gynhenid o bwy ydyn ni a rhoi i bobl bob cyfle (ble maent yn dymuno ei gael) i ddysgu, cynnal a datblygu eu sgiliau iaith personol. Mae gan y Gwasanaethau Cyhoeddus, fel y cyflogydd mwyaf yng Nghymru, lawer iawn i'w gyfrannu tuag at ei gwneud yn bosibl i Lywodraeth Cymru gyflawni eu targed uchelgeisiol a fydd yn y pen draw yn cryfhau hunaniaeth Cymru a'i natur unigryw.

| Newidiadau Syml | Bod yn fwy Anturus | Arwain y Ffordd |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| • Gweithwyr i gael mynediad yn ystod oriau gwaith i adnoddau ar-lein am ddim i gynorthwyo dysgu/deall y Gymraeg. ( P CW I )<br>• Pob mynediad i gynnwys cyfarchion dwyieithog (wyneb yn wyneb/teleffon/e-bost absennol o'r swyddfa) ( CW I )<br>• Defnyddio'r coma Cymraeg ar laniardau a llofnodion e-bost staff sy'n siarad Cymraeg. ( CC CW I )<br>• Cysill / Cysgeir (adnodd gramadeg Cymraeg /gwirio sillafu) i fod ar gael i bob aelod o'r staff ( P CW ) | • Y Gymraeg yn rhan greiddiol o Gynllun Corfforaethol y sefydliad gydag uchelgais glir a chamau gweithredu i fod ar gael ar gyfer datblygu ( E CW )<br>• Pob e-bost staff i'w hanfon ar ffurf ddwyieithog ()<br>• Perthynas â Menter Iaith leol i'w datblygu ( E CC CW I )<br>• Cyfleoedd anffurfiol i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cynorthwyo dysgwyr e.e. Cinio Cymraeg, siop siarad/cynllun cyfeillio ( P CC CW I )<br>• Ymgysylltu â'r Eisteddfod Genedlaethol ac Eisteddfod yr Urdd a thrwy hyn ddatblygu cyfleoedd i ymgysylltu â chymunedau Cymraeg eu hiaith ( E CC CW I )<br>• Pob grŵp sy'n derbyn arian drwy gynlluniau grant neu fentrau strategol i gyhoeddi eu gweithgareddau a ariennir yn ddwyieithog ()<br>• Y Gymraeg fel nodwedd 'hanfodol' ym mhob templed Disgrifiad Swydd i'w gosod yn y blwch 'dymunol' yn unig ar ôl trafodaeth yn ystod y broses recriwtio ar gyfer pob rôl ( P E CW )<br>• Y rhai sy'n siarad Cymraeg a'r rhai sy'n gwella'u Cymraeg i ymuno â'r fenter Siarad a drefnir gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol: <https://dysgucymraeg.cymru/dysgu/siarad> ()<br>• Cerddoriaeth Gymraeg a Chymreig i'w chwarae ym mhob gofod cyhoeddus ( P CW )<br>• Defnyddio cyfieithydd, nid Google Cyfieithu (neu debyg) i gyfieithu gwybodaeth sefydliadol/dogfennau gyda chyfieithiadau i 'w crefftio nid eu cyfieithu'n llythrennol ( P E CW )<br>• Y Gymraeg i'w hystyried wrth gynllunio unrhyw brosiect newydd, neu weithgaredd neu adeilad ( P H E CC CW I )<br>• Partneriaeth i'w datblygu gyda Menter Iaith i alluogi cysylltiad ag unigolion a chymunedau sy'n siarad Cymraeg ar gyfer ymgynghori, digwyddiadau, ymgysylltu etc. ( E CC CW I )<br>• Cymorth i'r rhai sy'n siarad Cymraeg i'w ddatblygu i alluogi staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu hamgylchedd proffesiynol e.e. iechyd, addysg, chwaraeon ( P H E CW I )<br>• Cwestiynau a gynhwysir mewn arfarnu staff i'w cysylltu'n benodol â'u dyheadau personol/ymrwymiad i ddysgu neu ddatblygu eu sgiliau yn y Gymraeg () | • Dwyieithrwydd i fod yn arfer 'normal' ( E CC CW I )<br>• Systemau mewnol cwbl ddwyieithog e.e. polisïau, arfarnu, contractau ( P E CW )<br>• Staff yn medru cyfathrebu'n fewnol yn yr iaith o'u dewis ( P E CW I )<br>• Rhaglenni dysgu rheolaidd i gynorthwyo staff i ddysgu, datblygu a chynnal lefelau iaith lafar ac ysgrifenedig drwy gyfrwng y Gymraeg ( P E CC CW I )<br>• Darparu cymorth i sefydliadau nad ydynt yn Gyrff Cyhoeddus i gyfieithu gwybodaeth ( E CW )<br>• Cyfleoedd Datblygiad Proffesiynol Parhaus i'w cysylltu â sgiliau iaith sydd ar gael yn y gweithle a sefyllfaoedd cymunedol. |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| | • Cyfrifon cyfryngau cymdeithasol dwyieithog ( CW I )<br>• Cyfieithydd/wyr mewnol ( P CW )<br>• Cyfranogiad gweithgar mewn fforymau lleol/rhanbarthol Cymraeg eu hiaith i gyd-gynhyrchu ymchwil, prosiectau a gweithgareddau ar gyfer cynorthwyo datblygiad y Gymraeg ()<br>• Cyrsiau cynyddu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a diwylliant i'w gweithredu yn y gweithle/ysgolion ( P E CW I )<br>• Cyfleoedd i bobl ddysgu'r Gymraeg drwy weithgareddau diwylliannol/neu mewn cyd-destun diwylliannol e.e. drwy ganu, teithiau cerdded treftadaeth ( R H CC CW I )<br>• Marchnata/cynlluniau Cysylltiadau Cyhoeddus i fod ar gael i farchnata'r gwasanaethau sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg ( E CC CW I )<br>• Gellir sefyll unrhyw arholiad Dinasyddiaeth Brydeinig drwy unrhyw iaith Brydeinig ( E CW I )<br>• Tudalennau Wikipedia drwy gyfrwng y Gymraeg i'w datblygu ar gyfer hybu diwylliant a threftadaeth leol a chreu/cynnal hunaniaeth Gymraeg ar y we ( CC CW G I )<br>• Ystyried y Gymraeg mewn ceisiadau cynllunio i ddatblygu cynnydd net i'r iaith drwy ddatblygiadau newydd ( P E CC CW I )<br>• Y Gymraeg i'w chynrychioli ym mhob ymgynghoriad strategol (yn fwy eang na drwy Fenter Iaith yn unig) e.e. Mudiad Ysgolion Meithrin, Urdd, Cymraeg i Oedolion etc. ( E CC CW I )<br>• Datblygu partneriaeth gyda Menter Iaith i hwyluso bordydd ymgynghori drwy gyfrwng y Gymraeg mewn digwyddiadau (hyd yn oed os nad yw'r drafodaeth yn ymwneud yn benodol â'r Gymraeg) ( E CC CW I )<br>• Partneriaethau i'w datblygu gyda sefydliadau a fedr hwyluso gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg fel rhan o raglenni gwaith ehangach e.e. mewn cynlluniau haf, canolfannau hamdden ()<br>• Timau cynllunio i ystyried y defnydd o'r Gymraeg i ddylanwadu ar fusnesau a bod o fudd i'r gymuned leol ( P E CC CW I )<br>• Datblygu hyfforddiant penodol i alluogi mwy o ddefnydd o'r Gymraeg mewn trafodaethau | ( P E CC CW I )<br>• Terminoleg dechnegol i'w datblygu yn y Gymraeg ym mhob maes arbenigedd yn y sector cyhoeddus ( P R H E CC CW I )<br>• Partneriaeth genedlaethol lefel uchel i'w datblygu ( sy'n caniatáu i ddarpariaethau/ymgysylltiad lleol) i adeiladu ymagwedd gadarn, gydweithredol tuag at ddatblygu'r Gymraeg ledled Cymru ( P E CC CW I |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| | proffesiynol e.e. iaith, addysg, chwaraeon ( Ⓟ Ⓗ Ⓔ ⒸⓌ Ⓘ ) | |
| Pob Corff Cyhoeddus a gwmpesir gan Safonau'r Iaith Gymraeg | Menter Iaith Merthyr Tudful<br>Cyfoeth Naturiol Cymru<br>Menter Iaith Caerffili<br>Cynnig ar y cyd gan Ysbryd Pontio 2010 / Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr<br>Menter Iaith Môn, Merthyr Tudful, Brycheiniog<br>Prosiect Highlands and Islands yr Alban<br>Menter Iaith Caerffili / Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili<br>Pets at Home, Sir Gaerfyrddin<br>MA mewn Ymwybyddiaeth Ofalgar – Adran Seicoleg Prifysgol Bangor yn gwneud Ymwybyddiaeth Ofalgar yn ddiwylliannol berthnasol i Gymru a'r Gymraeg | Llyfrgell Genedlaethol Cymru<br>Pontio / Prifysgol Bangor<br>Gŵyl Gymraeg i Ddysgwyr |

DRAFT

DRAFT

**<u>Gwerthfawrogi creadigrwydd</u>**

**Cynorthwyo'r rhai hynny sy'n gweithio yn y Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru i ymgysylltu â diwylliant yn ystod eu gwaith o ddydd i ddydd a'u horiau hamdden a thrwy hynny werthfawrogi'r cyfraniad y gall ymgysylltu â diwylliant ei wneud i lesiant. Ochr yn ochr â hyn amlygu nodweddion gorau pobl broffesiynol ledled Cymru i gynnal gyrfaoedd yn y cartref ac ar lwyfannau rhyngwladol**

<u>Diffinio'r mater:</u>

Gall bod yn greadigol yn y gweithle sbarduno cynhyrchiant yn ogystal â chynorthwyo llesiant meddyliol y rhai a gyflogir. Dywedir bod cwmnïau a gweithwyr sy'n ymgysylltu â chelfyddyd yn adrodd bod boddhad cwsmeriaid 40% yn uwch, 30% o gynnydd mewn cynhyrchiant, a 36% o gynnydd mewn perfformiad cyffredinol .

Mewn <u>astudiaeth IBM</u> ddiweddar datgelodd 1,500 o Brif Swyddogion Gweithredol mai creadigrwydd yw'r un sgil bwysicaf i arweinwyr. Mewn astudiaeth ar barodrwydd gweithlu a gynhaliwyd gan y Bwrdd Cynadleddau, dywedodd 97% o gyflogwyr bod creadigrwydd o bwys cynyddol. Mae arfer creadigol yn annog arbrofi ac arloesi drwyddi draw mewn sefydliadau tra bo arweinwyr creadigol yn mentro'n fwy gofalus, yn darganfod syniadau newydd, ac yn dal i arloesi wrth arwain a chyfathrebu. Gallwn feithrin hyn drwy ein gweithlu diwylliannol yng Nghymru (p'un ai ydynt yn cael eu cyflogi gan y Sector Cyhoeddus ai peidio) a hynny er lles pawb.

| Newidiadau Syml | Bod yn fwy Anturus | Arwain y Ffordd |
|---|---|---|
| • Staff yn cael eu hannog i gofrestru i gael cerdyn llyfrgell am ddim ( (H) (CC) (CW) (I) )<br>• Timau staff creadigol yn cael eu hannog i ymuno â Chaerdydd Creadigol, y Gogledd Creadigol neu'r | • Yr ystod o wahanol gyfleoedd diwylliannol sydd ar gael i staff yn yr ardal leol tu allan i'r gwaith i gael eu hybu (e.e. corau, mannau gwyrdd, campfeydd, safleoedd treftadaeth, digwyddiadau, sinema ( (R) (H) (CC) (CW) (I) )<br>• Staff i gael eu hannog i ddefnyddio cyfleusterau diwylliannol lleol (e.e. llyfrgelloedd, amgueddfeydd, orielau, parciau ) yn ystod yr awr ginio ( (R) (H) (CW) (I) )<br>• 5 o Arferion Creadigol y meddwl i'w mabwysiadu ( (P) (H) (CW) (I) )<br>• Gwiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i fod ar gael yn ddwyieithog ( (E) (CW) (I) )<br>• Timau diwylliannol i gael eu gosod yn yr un gyfarwyddiaeth (e.e. celf, twristiaeth, chwaraeon, treftadaeth, llyfrgelloedd) ()<br>• Pobl broffesiynol ddiwylliannol ac o'r 3ydd sector i'w gwerthfawrogi a'u talu'n briodol am eu hamser ( (P) (E) (CW) (I) )<br>• Cyfleoedd i gael eu darparu i staff i gyfranogi mewn gweithgareddau diwylliannol e.e. corau, amser i gynyddu gweithgareddau corfforol ( (H) (CC) (CW) (I) ) | • Pobl broffesiynol ddiwylliannol i gael eu defnyddio i wneud newidiadau/datblygu prosiectau/ adeiladu cyfalaf ac ail-ddatblygu ( (P) (CW) (I) )<br>• Offerynnau creadigol i gael eu defnyddio i fynd i'r afael â materion sefydliadol e.e. drama ar gyfer rheoli stres, yoga ar gyfer ymlacio etc. ( (H) (E) (CC) (CW) (I) )<br>• Cynllunio â ganddo weledigaeth tymor hwy na'r cylch etholiadol nesaf i fod ar gael |

| | | |
|---|---|---|
| De Orllewin Creadigol<br>( P CW I )| • Staff i gael eu meithrin yn greadigol ( P H CW I )<br>• Gwaith i'w ddatblygu gydag unigolion creadigol/sefydliadau diwylliannol i hybu gwaith presennol mewn dull creadigol,  ac ymgysylltu â gwahanol randdeiliaid ( E CC CW I )<br>• Cyfnewid staff diwylliannol  gyda chyrff cyhoeddus eraill i ennill gwell dealltwriaeth o wahanol ddulliau o weithio ( P CW I )<br>• Ystyriaethau o'r Gymraeg i fod ar gael yn ystod cyfnod canfod pob datblygiad prosiect ( P E CW I )<br>• Potensial cynnyrch Eisteddfod i gael ei facsimeiddio ar lwyfan ehangach o fewn Cymru ac yn rhyngwladol ( P CW G I )<br>• Safleoedd sector a ddefnyddir ar gyfer gweithgaredd celfyddydol a thrwy gyfrwng y Gymraeg i'w cyflwyno mewn partneriaeth â sefydliadau perthnasol y 3ydd sector ( E CC CW I )<br>• Cynnwys Cymraeg mewn podlediadau, clywedol, realiti rhithwir a realiti estynedig i'w ddatblygu i gynorthwyo gwelededd, hygyrchedd a sicrhau nad yw'r iaith yn cael ei gadael ar ôl yn y datblygiadau technegol diweddaraf ()<br>• Cydweithio arloesol i'w ddatblygu  rhwng y sector diwylliannol a meysydd eraill y Sector Cyhoeddus yn ogystal â'r trydydd sector a busnes preifat ( P R H E CC CW G I )<br>• Systemau dangosydd perfformiad i fod ar gael sy'n caniatáu cymharu'r sector diwylliannol ac arddangos effaith  () | ( P R H E CC CW G I )<br>• Diwylliant ddim i'w neilltuo i wasanaethau diwylliannol ond ei effaith posibl yn y cyd-destun ehangach i gae ei weld ar draws pob Gwasanaeth Cyhoeddus a chymunedau( P R H E CC CW G I )<br>• Rhai sy'n siarad Cymraeg ddim i deimlo'u  bod yn 'niwsans' pan fydd gwasanaethau'n defnyddio'r Gymraeg ( E CC CW I )<br>• Diwylliant i'w ddefnyddio ym mhob adran i wneud gwaith yn berthnasol i ddinasyddion, gyda chyfleoedd yn cael eu datblygu ar gyfer herio, ymgysylltu, cyfranogi a datblygu drwy ddulliau diwylliannol ( P R H E CC CW G I )<br>• Proffil y Gymraeg yng Nghymru a'i chyfleoedd/photensial ar gyfer datblygu unigolion a chymunedau i gael eu cynyddu yn ogystal â gwaith rhyngwladol/ymweliadau () |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| • Gweithio gyda'r rhai hynny sydd eisoes yn berchen ar gysylltiadau cymunedol ar gyfer datblygu prosiectau newydd<br>• ( I CC ) | • Mecanweithiau cynorthwyol i fod ar gael i wirfoddolwyr ( P H E CC CW I )<br>• Gwerth/proffesiynoldeb pobl broffesiynol creadigol i'w gydnabod ynghyd â lefelau tâl priodol. ( P H E CW I )<br>• Cyfleoedd i'w darparu i gyflogi pobl ifanc â thalent greadigol (e.e. fel cerddorion mewn digwyddiadau/hyfforddwyr chwaraeon lleol/blogio/fideos byr am wasanaethau/dehonglwyr mewn safleoedd treftadaeth etc. ()<br>• Arbenigedd i'w rannu ymhlith partneriaid â phrofiad mewn meysydd diwylliannol penodol ()<br>• Cyfleoedd mewn arweinyddiaeth ddiwylliannol i fod ar gael i bobl ifanc ( P E CW I )<br>• Cysylltiadau i'w creu rhwng pobl broffesiynol creadigol a gweithlu Corff Cyhoeddus ehangach ( P E CW I )<br>• Cyfleoedd gwirfoddoli mewn lleoliadau diwylliannol i'w darparu gyda gwirfoddolwyr yn gweithio ochr yn ochr â staff nid yn eu lle ( P H E CC CW I )<br>• Cynlluniau bach sy'n rhoi grantiau gyda chyn lleied â phosib o waith papur i sicrhau darpariaeth a ddatblygwyd yn lleol a phob proses rhoi grantiau i fod yn berthnasol i'r swm a ofynnwyd amdano ( P E CC CW I )<br>• Mynediad i ofod ar gyfer pobl broffesiynol creadigol e.e. siopau gwag, desgiau i fod ar gael pan fydd eu hangen gyda pholisi ar gael i gynorthwyo hyn ( P H E CC CW I )<br>• Entreprenueriaid diwylliannol uchelgeisiol i gael eu hadnabod a'u cynorthwyo ( P H E CW G I )<br>• Mecanweithiau i'w datblygu i gynorthwyo cerddorion ifanc â thalent i gyrchu offerynnau addas ( P H E CW I )<br>• Model rhanbarthol o ddatblygiad amgueddfeydd i fod ar gael lle mae gwasanaethau'n dal i gael eu darparu'n lleol ( P E CC CW G I )<br>• Buddsoddi mewn diwylliant ar draws Cyrff Cyhoeddus drwyddi draw nid yn unig o bortffolio diwylliannol ( P H E CC CW G I )<br>• Modelau prentisiaeth i fod ar gael i gynorthwyo pobl broffesiynol uchelgeisiol i ddysgu eu masnach ddiwylliannol mewn amgylchedd proffesiynol () | • Ymrwymiadau ariannu tymor hwy i fod ar gael ( P H E CC CW G I )<br>• Gweithio gyda sefydliadau diwylliannol/adrannau/unigolion i gynllunio ar gyfer newid yn y tymor hwy ( P H E CC CW G I )<br>• Swyddi diwylliannol i gael eu hadnabod a'u gwerthfawrogi fel proffesiwn cyfartal ag eraill e.e. gwyddonol, technolegol, peirianneg ( P H E CC CW G I )<br>• Llwybrau cynaliadwy i ennill llwyddiant gyrfaol i fod ar gael ar gyfer pobl broffesiynol ddiwylliannol ( P H E CC CW G I )<br>• Mentora busnes i fod ar gael i gynorthwyo pobl ddiwylliannol/sefydliadau i ddatblygu model busnes mwy cydnerth sy'n llai dibynnol ar ariannu cyhoeddus ( P CW I )<br>• Cymorth i'w ddatblygu a'i |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| | • Llwybrau i bobl i gyrchu’r proffesiwn diwylliannol i gael eu nodi a’u gweithredu – mae hyn i gynnwys canolfannau rhagoriaeth cydweithredol, academïau yn ogystal â darpariaeth pynciau diwylliannol cyson i ysgolion a cholegau ( P E CW I )<br>• Model o swyddi a sgiliau creadigol yn y dyfodol i gael eu datblygu a sgiliau presennol i’w mapio ar gyfer adnabod materion yn y dyfodol a mynd i’r afael â hwynt drwy anghenion hyfforddi amrywiol ar draws y sector diwylliannol ( P E CW G I )<br>• Sgiliau pobl broffesiynol ddiwylliannol i’w datblygu i feithrin datblygu cynnyrch yr iaith Gymraeg ( E CC CW I )<br>• Ymagwedd gydweithredol rhwng Cyrff Cyhoeddus a’r rhai hynny a ariennir gan Gyrff Cyhoeddus i’w datblygu i feithrin sgiliau ar gyfer y dyfodol a sicrhau cynaliadwyedd gyrfaoedd diwylliannol ( P E CW I )<br>• Llwybrau hyfforddi i fod ar gael i ganfod methiant pobl (am ba bynnag reswm) i gyrchu llwybrau traddodiadol i gyflogaeth yn y diwydiannau diwylliannol, gyda bwrsariaethau ar gael yn ôl priodoldeb ( P H E CC CW I )<br>• Lleoliadau gwaith/secondiadau i fod ar gael i ganiatáu i bobl o’r sector diwylliannol weithio gyda chyrff cyhoeddus a sefydliadau eraill i gynorthwyo meddylfryd creadigol a datblygu dealltwriaeth ymhlith gwahanol sectorau yng Nghymru ()<br>• Dogfennau tendro priodol i fod ar gael ar gyfer gwaith a gaiff ei gaffael, i ganiatáu hyblygrwydd a meddylfryd creadigol () | ddarparu sy’n caniatáu i Gymru sefyll ar lwyfannau diwylliannol rhyngwladol a chael ei chydnabod fel man o arfer diwylliannol gorau ( P CW G ) |
| Adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru | Pennaeth ar gyfer y Celfyddydau<br>Iechyd Cyhoeddus Cymru<br>Amgueddfa Manceinion a’r Bwrdd Iechyd yn cyfnewid staff<br>BBC<br>Pecyn cymorth Gwerth Cymru – a ellir datblygu un ar gyfer diwylliant?<br>Canolfan Bedwyr | https://ahrc.ukri.org/research/fundedthemesandprogrammes/culturalvalueproject/ |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili / Rhaglen Cyfuno a phrosiect Inside Out Cyngor Bwrdeistref | Mentora anffurfiol Cyfoeth Naturiol Cymru a CADW/rhannu rhaglen<br>Llysgenhadon Chwaraeon Cymru/MonSport Playmaker<br>A2:Clymu<br>Rhaglen Take Over e.e. Plant Mewn Amgueddfeydd<br>Canolfan yr Aifft, Abertawe / Rhaglen Cyfuno<br>Model Amgueddfeydd Tyne and Wear | Gemau’r Gymanwlad/Cymru yn Fenis |

| | | |
|---|---|---|
| Torfaen | Addo / prosiect celf yn y cylch cyhoeddus Cyngor Abertawe<br>Rhaglen allanol Opera Cenedlaethol Cymru | |

**Mecanwaith ar gyfer newid**

**Gan ddefnyddio ymyriadau diwylliannol a ieithyddol i fynd i'r afael â materion cymdeithasol ehangach mewn iechyd, tlodi, pobl hŷn, adfywiad, gofal cymdeithasol ac addysg**

Diffinio'r mater:
Rydyn ni i gyd yn rhy ymwybodol fel cymdeithas o'r materion hirdymor sy'n ein hwynebu. Gyda phoblogaeth sy'n heneiddio, salwch hirdymor yn dod yn fwy cyffredin a thlodi adnoddau ac uchelgais yn cynyddu o'n cwmpas, gosodir straen cynyddol ar y gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru sydd eisoes yn wynebu heriau mewn hinsawdd economaidd anodd.

Rydyn ni angen newid ein ffocws i'n cynorthwyo i atal materion hirdymor rhag digwydd dro ar ôl tro neu ddirywio ymhellach. Mae gan ddiwylliant a'r Gymraeg swyddogaeth allweddol yn yr agenda hwn. Mae llawer o astudiaethau wedi nodi manteision corfforol a seicolegol ymgysylltiad diwylliannol a ieithyddol - teimladau mwy boddhaol yn ystod henoed, atal datblygu iselder, cyflymu gwella o salwch meddyliol, atal datblygiad poen cronig ac amddiffynfa yn erbyn dirywiad gwybyddol - mae'r rhain i gyd wedi eu dogfennu'n dda. Mae dinasoedd diwylliant ledled y DG yn fodelau o ble mae diwylliant wedi sbarduno adfywiad eang a mynd i'r afael â materion tlodi drwy ddiwylliant - mae tystiolaeth ar gael sy'n dangos eu bod yn hynod lwyddiannus.

Mae angen i ni ddysgu oddi wrth y rhai sydd o'n cwmpas a gwneud mentrau diwylliannol a ieithyddol yn rhan annatod o'n gwasanaethau cyhoeddus i sicrhau bod ein dinasyddion yn cael y cyfle i fyw eu bywydau i eithaf eu gallu, waeth pa le oedd eu man cychwyn.

| **Newidiadau Syml** | **Bod yn Fwy Anturus** | **Arwain y Ffordd** |
|---|---|---|

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| • Bod yn allblyg wrth ymgysyllta â'r Diwrnod Chwarae Cenedlaethol ( H CC CW I )<br>• Cyfleoedd i bobl hŷn i ymgysylltu â diwylliant drwy'r Ŵyl Wanwyn a hyrwyddir ( H E CC CW I )<br>• 5 dull o ymgysylltu (Cymhelliad, Hyder, Ymwybyddiaeth, Adnoddau, Profiad) i gael eu gweithredu ym mhob gwaith sy'n seiliedig yn y gymuned ( H E CC CW I )<br>• Pob canolfan gelfyddydol i ymuno â'r Cynllun Mynediad Cenedlaethol - Hynt () | • Penderfyniadau cyllideb i'w gwneud gyda deallusrwydd o gyd-destun ac effaith gwasanaethau/gweithgareddau diwylliannol a sut mae hyn yn cyd-fynd â'r agenda atal ()<br>• Cyfleoedd diwylliannol wedi eu cynnwys a'u hybu yn ystod dyddiau cenedlaethol e.e. Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd ()<br>• Rheolau Adran 106 i gael eu defnyddio i ddatblygu Celf Cyhoeddus ( P R CW )<br>• Cyfleoedd i gael eu datblygu i gymunedau i gyfranogi'n lleol mewn cyfleoedd ehangach cenedlaethol e.e. Gŵyl y Gwanwyn, Gŵyl Gelf i'r Teulu, Get Creative ( H E CC CW I )<br>• Dysgu Creadigol drwy ymgysylltu â rhaglen waith Gelfyddydol ( P E CW I )<br>• Aelodau o gymunedau a dargedwyd i greu prosiectau celfyddydol ar y cyd ( E CC CW I )<br>• 'Be Creative' i gael ei fabwysiadu ochr yn ochr â'r 5 dull arferol o weithio tuag at lesiant ()<br>• Cyfleoedd celfyddydol/darpariaeth i gael eu hystyried mewn cynlluniau gofal i'r henoed ( H E CC CW I )<br>• Dealltwriaeth o botensial celfyddyd mewn meysydd gwaith eraill i fynd i'r afael â materion sy'n cael eu codi e.e. Addysg, Iechyd, Gofal Cymdeithasol, Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod etc. ( H CW I )<br>• Profion meddygol e.e. cymorth seiciatryddol i fod ar gael i'r rhai â'r Gymraeg yn famiaith iddynt ()<br>• Gweithgareddau/cyfleoedd drwy gyfrwng y Gymraeg i gael eu darparu mewn sefydliadau e.e. ysbytai, cartrefi gofal, canolfannau seibiant etc. ( H E CC CW I )<br>• Partneriaethau gyda sefydliadau'r 3ydd sector i fod ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg (e.e. Urdd Gobaith Cymru, Mudiad Ysgolion Meithrin, Ffermwyr Ifanc, Menter Iaith etc.) i ddatblygu mentrau/rhaglenni gwaith sy'n mynd i'r afael â phryderon cymdeithasol ehangach e.e. Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod () | • Buddsoddi mewn diwylliant i'w ystyried fel rhywbeth pwysig; enillion i gael eu deall ac arian i'w fuddsoddi yn yr agenda atal i gynorthwyo hyn ( E CC CW G I )<br>• Celfyddydau, amgueddfeydd, treftadaeth a llyfrgelloedd i fod yn rhan hanfodol o fodelau Presgreibio Cymdeithasol ( H CW I )<br>• Pobl broffesiynol ddiwylliannol sy'n ymgysylltu â datblygu dulliau cynllunio strategol newydd i ddiwallu anghenion a ganfuwyd ( P R H E CC CW G I )<br>• Diwylliant mewn meysydd Iechyd i gael blaenoriaeth ( H CW I )<br>• Modelau ariannu hirdymor i'w datblygu i gynorthwyo ymgyfraniad ac ymgysylltiad cymunedau â phobl broffesiynol diwylliannol fel catalydd ar gyfer newid ( P H CC CW I )<br>• Ymagweddau creadigol tuag at faterion cymdeithasol i gael eu defnyddio e.e. dysgu dawnsio er mwyn osgoi cwympo |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| | • Buddsoddiad gan wasanaethau statudol (e.e. Addysg, Gwasanaethau Cymdeithasol, Byrddau Iechyd etc.) i gael eu defnyddio i ddatblygu partneriaethau gyda sefydliadau diwylliannol/unigolion sy'n galluogi mentrau diwylliannol i ddigwydd ar y cyd, a dangos effaith mewn amrywiaeth o leoliadau cymdeithasol ( P H E CC CW I )<br>• Partneriaethau gyda sefydliadau Addysg Uwch ar gael i ddatblygu rhaglenni gwaith diwylliannol seiliedig ar angen â ganddynt fframwaith asesu cadarn ( H CC CW I )<br>• Ymgysylltiad allblyg â rhaglenni Presgreibio Cymdeithasol e.e. Y Cynllun Atgyfeirio Cenedlaethol ar gyfer Ymarfer Corfforol, Llyfrau ar Ddementia ( H E CW I )<br>• Rhaglenni gwaith wedi eu targedu, sy'n defnyddio offerynnau diwylliannol a phobl broffesiynol ddiwylliannol, i gael eu datblygu i gynorthwyo materion ehangach e.e. Diogelwch Cymdeithasol, Llythrennedd, Tlodi, Arwahanrwydd Cymdeithasol ( P R H E CC CW I )<br>• Pobl broffesiynol ddiwylliannol i gael eu defnyddio i ddatblygu rhaglenni gwaith i gynorthwyo systemau a phrosesau profi yn y dyfodol.e.e. Adfywio canolfannau trefi, Gofal Iechyd, Cynllunio, Tai, Gofal Cymdeithasol ( P R H E CC CW I )<br>• Digwyddiadau diwylliannol i'w defnyddio fel catalydd ar gyfer iechyd meddwl ac iechyd corfforol ()<br>• Dadleuon allblyg yn cynnwys ymgyfraniad rhanddeiliaid allweddol i'w datblygu i ystyried a ddylid cael agenda Diwylliant mewn Iechyd ( H E CC CW I )<br>• Partneriaethau ar gael i sbarduno'r agenda Celfyddyd mewn Iechyd ( P H CW I )<br>• Cydlynydd Celfyddydau i'w ch/gyflogi ym mhob Bwrdd Iechyd ledled Cymru gan ddatblygu rhaglenni gwaith arloesol cysylltiedig ag iechyd ( P H CW I )<br>• Byrddau iechyd lleol a Iechyd Cyhoeddus Cymru i gydweithio gyda phobl broffesiynol celfyddydol i ymgysylltu'n allblyg/datblygu rhaglenni diwylliannol | ( H CC CW I )<br>• Ymagwedd gydweithredol tuag at ofal drwy gyfrwng y Gymraeg i'w datblygu a'i gweithredu ( H E CW I )<br>• Iechyd a diwylliant i eistedd ochr yn ochr mewn lleoliadau cymunedol gan gyfrannu'n egnïol tuag at ddatblygiad ei gilydd ac anghenion darparu gwasanaethau ( H E CC CW I )<br>• Model Hynt i'w ddatblygu fel adnodd diwylliannol integredig ar draws Cymru a thu hwnt ( H E CC CW I ) |

| | | |
|---|---|---|
| | sy'n cynorthwyo cyflyrau iechyd e.e. clefyd Parkinson, Atal Cwympo ( Ⓗ Ⓔ CC CW Ⓘ )<br>• Ymagwedd holistig i'w mabwysiadu i gynorthwyo unigolion i gynnal ffordd iach o fyw a dod dros/byw gyda chyflyrau penodol gyda thimau meddygol, gan barchu proffesiynoldeb proffesiynau celfyddydol a chydnabod eu cyfraniad a'u heffaith ochr yn ochr â gofal iechyd traddodiadol ()<br>• Llwybrau gofal i'w datblygu drwy gyfrwng y Gymraeg gydag ymgyfraniad y rhai â phrofiad o fyw gyda chyflyrau iechyd ( Ⓗ Ⓔ CW Ⓘ )<br>• Plant sydd wedi cael addysg cyfrwng Cymraeg i gael mynediad i brofion sylfaenol e.e. clyw, golwg, trwy gyfrwng y Gymraeg i sicrhau bod materion cywir yn cael eu hadnabod ( Ⓗ CW )<br>• Pob agwedd o ddiwylliant i gael cydnabyddiaeth, i gael eu gwerthfawrogi ac i ddod yn rhan hanfodol o fentrau iechyd e.e. y Cynllun Atgyfeirio Cenedlaethol ar gyfer Ymarfer Corfforol, llwybrau beichiogrwydd() | |
| Chwaraeon Cymru<br>Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro | Age Cymru<br>Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (Simone Jocelyn 029 29 742406)<br>Llyfrgelloedd Casnewydd. Llyrgelloedd Conwy<br>Cyngor Celfyddydau Cymru/Llywodraeth Cymru<br>Amgueddfa Genedlaethol Cymru a Llamau<br>Gwasamaethau Oedolion Sir Fynwy – 'Turning the World Upside Down'<br>Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru - Dawns GIG dros glefyd Parkinson/prosiectau Atal Cwympo<br>Menter Iaith Caerffili<br>www.meddwl.org – gwefan Gymraeg i gynorthwyo'r rhai ag afiechyd meddyliol<br>Archifau Amgueddfeydd Llywodraeth Cymru ac Adran Llyfrgelloedd<br>Gwasanaeth Tân y Canolbarth a'r Gorllewin/Gemau Strydoedd<br>Cynllun 'Night Out Young Promoters'<br>http://happymuseumproject.org/happy-museum-wellbeing-future-generations-act-wales/<br>Prosiect Amber Caerdydd – Grŵp hunangymorth sy'n defnyddio gweithgareddau diwylliannol i gynorthwyo pobl ifanc sy'n hunan-niweidio<br>Cyfoeth Naturiol Cymru / prosiect Coed Moel Famau Theatr Clwyd yn cysylltu | Syniadau, Pobl, Mannau<br>Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru<br><br>Engagement with arts and community groups predicts better wellbeing in older age:<br><br>https://whatworkswellbeing.org/our-work/sport-culture/<br><br>Model Celfyddydau Cymunedol Slofenia<br><br>Clwb Dawns Truro (astudiaeth Robin Dury, Prifysgol Plymouth ar y gostyngiad mewn beichiogrwydd yn yr arddegau a defnyddwyr cyffuriau)<br>Pentref Llesiant Llanelli/Canolfan |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| | llesiant â chreadigrwydd, gweithgaredd corfforol ac ymgolli mewn natur | Lles Penarth |

DRAFT

| **Ffyniant a chydnerthedd**<br>**Defnyddio celfyddyd a'r Gymraeg fel sbardun ar gyfer newid economaidd ac amgylcheddol** | | |
|---|---|---|
| Diffinio'r mater:<br>Mae ymchwil diweddar gan Nesta'n dangos bod y diwydiannau creadigol yng Nghymru'n tyfu ddwywaith yn gynt nag mewn sectorau eraill. Mae tystiolaeth o'r Swistir a Chanada'n dangos perthynas gadarnhaol rhwng dwyieithrwydd a GDP. Ac nid oes angen gwneud dim mwy na gweld y rhyfel diweddar yn erbyn plastig yn dilyn rhaglen Blue Planet 2 David Attenborough i wybod bod gan ymyrraeth ddiwylliannol rôl allweddol i'w chwarae wrth addysgu ein dinasyddion am faterion ehangach, byd-eang .<br><br>Mewn byd lle mae angen gwerthfawrogi creadigrwydd wrth i ni symud tuag at awtomatiaeth, mae angen i ni ddefnyddio'n cryfderau i'r eithaf a chynorthwyo datblygiad cenedl ddiwylliannol sy'n addas ar gyfer y dyfodol. | | |
| **Newidiadau Syml** | **Bod yn fwy Anturus** | **Arwain y Ffordd** |
| • Sefydliadau diwylliannol yn aelodau o Gonsortiwm Celfyddydau Awyr Agored Cymru o dan arweiniad Articulture<br><br>( P R CW G I ) | • Twristiaeth Ddiwylliannol i gael cydnabyddiaeth fel cyfrwng i lwyddiant economaidd gan hyrwyddo digwyddiadau, cyfleusterau a gweithgareddau ar y cyd ymhlith y sector ( P R CC CW G)<br>• Ardaloedd o dir cyhoeddus yn cael eu nodi ar gyfer gweithgaredd diwylliannol ( P R H CC CW )<br>• Ôl-troed carbon artistiaid a phobl sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon a sut mae gwrthbwyso hyn i gael ei ystyried mewn polisi, gan gynnal cydnabyddiaeth o bwysigrwydd ehangu cynigion diwylliannol yng Nghymru yn ogystal â chynorthwyo gyrfaoedd cynaliadwy ( R H CW G)<br>• Offerynnau clywedol/gweledol i'w datblygu sy'n ennyn ymgysylltiad dinasyddion â gweithredu cadarnhaol ac sy'n dangos yn glir pam mae materion economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol yn bwysig ( P R H CC CW G I )<br>• Cymorth i fod ar gael i sicrhau bod sefydliadau diwylliannol ac unigolion yn ymwybodol o'u heffaith ar y 6 nod llesiant arall ac yn medru mynegi sut y maent, mewn dull allblyg, yn cyflawni pob un ar gyfer cynorthwyo cyflogadwyedd ac effaith y sector diwylliannol ar fywyd cyhoeddus ( P R H E CC CW G I )<br>• Cynlluniau budd-daliadau cymunedol yn cynnwys diwylliant i fod yn ofynnol ym mhob | • Partneriaethau i'w datblygu sy'n berthynol i fodel Fusion/Cyfuno i gynorthwyo datblygu sgiliau a chyflogadwyedd ( P R E CC CW I<br>• Canolfannau lleol i gael eu defnyddio fel ffynonellau cyfleoedd ar gyfer datblygiadau sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion e.e. tyfu busnes, defnyddio cynnych/gwasanaethau lleol, canolfannau ymyrraeth iechyd ( P R H E CC |

| | | |
|---|---|---|
| | proses tendro graddfa fawr ()<br>• Busnesau i gael eu cynorthwyo i ddefnyddio adnoddau naturiol wrth adeiladu busnesau ( P R CW G I )<br>• Canllawiau ar gyfer y sector diwylliannol i gael eu datblygu gan y sector amgylcheddol gyda thirfeddianwyr yn gyfrifol am greu cyfleoedd ar gyfer mwy o ddefnydd o'r dreftadaeth/safleoedd awyr agored ar gyfer cynnyrch diwylliannol ( P R CC CW )<br>• Ymgymryd â dysgu diwylliannol oddi wrth genhedloedd Celtaidd eraill gan arwain at gynnydd er lles pawb drwy dwristiaeth a chyfleoedd diwylliannol eraill ( P R CW G I )<br>• Systemau i'w datblygu sy'n gwobrwyo/dathlu diwylliant mewn ymgais i godi ei broffil yn lleol a chenedlaethol/rhyngwladol ()<br>• Modelau buddsoddi corfforaethol i'w datblygu i sicrhau gweithgaredd diwylliannol ar gyfer llesiant staff a thwf economi diwylliannol ()<br>• Gweithgaredd diwylliannol/lleoliadau i'w defnyddio i hybu dysgu am yr amgylchedd naturiol a chynyddu ymwybyddiaeth amgylcheddol ( R H CW G I )<br>• Realiti Rhithwir a Realiti Estynedig i'w ddefnyddio i ennyn ymgysylltiad unigolion a busnesau i fod yn allblyg wrth wneud newidiadau ( P R CW G I )<br>• Potensial diwylliant ar gyfer datblygu sgiliau a sgiliau'r dyfodol i'w gydnabod a'i ddefnyddio ym mhob lleoliad addysgol a dysgu gydol oes ( P E CW I )<br>• Cyfleoedd i ddathlu a hybu'r Gymraeg a diwylliant Cymru i'w ddatblygu i ehangu persbectifau diwylliannol a chynnal hunaniaeth ddiwylliannol yn lleol, yn genedlaethol a rhyngwladol ( CC CW G )<br>• Partneriaeth i'w chreu rhwng y sector amgylcheddol a diwylliannol ar faterion allweddol lleol a rhanbarthol e.e. Datganiadau Ardal, rheoli cynaliadwy ac adnoddau naturiol ( ) | CW I )<br>• Gweithgaredd diwylliannol/cynnyrch i'w ddatblygu a'i ddefnyddio i newid persbectifau pobl am faterion allweddol cenedlaethol a rhyngwladol e.e. y defnydd o blastig ( P R H CW G I )<br>• Cytundeb strategol rhwng sefydliadau tirfeddianwyr a sefydliadau diwylliannol i gynorthwyo'r defnydd cynyddol o dir cyhoeddus a'r 3ydd sector<br>( P R H CW G I )<br>• Polisi Pensaernïaeth a Dylunio i Gymru i'w ddatblygu a'i weithredu'n lleol<br>( P R H CC CW G )<br>• Partneriaeth Tirwedd Ddiwylliannol rhwng y sector diwylliannol a'r sector amgylcheddol gydag ymagweddau arloesol i'w datblygu i liniaru'r materion a nodwyd |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| | | • ( Ⓟ Ⓡ Ⓗ ⒸⒸ ⒸⓌ Ⓖ Ⓘ ) |
| Articulture | Head Arts Planet Pledges<br>Amgueddfa Genedlaethol Cymru<br>Eisteddfod Genedlaethol / Dyn Gwyrdd<br>Zip World<br>Cenhedloedd Celtaidd eraill<br>http://cymraeg.gov.wales/business/business/swyddogion/?lang=en<br>Admiral a No Fit State Circus<br>Partneriaethau CADW gyda Chyfoeth Naturiol Cymru (gwylio'r môr Criccieth),<br>Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt Cymru (teithiau chwilod) etc./Gŵyl Afon Dyffryn Gwy<br>Head for Arts Earth Hour / Ship Shape<br>Mudo /partneriaeth RSPB<br>Safleoedd preswyl yr Urdd /gweithgareddau<br>Coedwigoedd i'w plannu gan Gyfoeth Naturiol Cymru mewn ardaloedd glofaol – gan gysylltu diwylliant, ffyniant hanesyddol a'r amgylchedd<br>Hanes arfordiroedd – cysylltiadau â'r economi a'r amgylchedd<br>Cysylltiadau UNESCO rhwng treftadaeth ddiwylliannol ddiriaethol, treftadaeth ddiwylliannol anniriaethol a threftadaeth naturiol | Rhaglen Cyfuno<br>Modelau Dinas Diwylliant y DG<br>Ymddiriedolaeth Hamdden Torfaen<br>Mudo<br>Vetch Veg / Nawr yr Arwr<br>https://qz.com/1203068/great-minds-dont-think-alike-how-cognitive-diversity-fuels-business-greatness/<br>https://warwick.ac.uk/research/warwickcommission/futureculture/mission/<br>Biosffer Dyfi<br>Yr Alban / Llychlyn<br>Hunaniaeth bensaernïol yn rhan o hunaniaeth ddiwylliannol |

DRAFT

**<u>Diwylliant ar gael i bawb</u>**

**Gosod diwylliant yng nghalon cymdeithas drwy alluogi'n dinasyddion i gyrchu ac ymgysylltu â'u diwylliannau hwy eu hunain ac eraill a theimlo'i berthnasedd a'i bwysigrwydd i'w bywydau a'u llesiant**

<u>Diffinio'r mater:</u>

Mae pobl yn profi diwylliant ym mhob rhan o'u bywyd bod dydd hyd yn oed os nad yw hyn yn cael ei gydnabod yn llwyr. O'r dillad yr ydym yn eu gwisgo i'r gerddoriaeth yr ydym yn gwrando arni a'r adeiladau yr ydym yn treulio amser ynddynt – mae diwylliant o'n hamgylch pa le bynnag yr ydym ac mae'n allweddol i'n cysylltiad cymdeithasol a'n hunaniaeth bersonol.

Mae <u>Erthygl 27 Datganiad Cyffredinol Hawliau Dynol</u> yn datgan bod 'gan bob un yr hawl i gyfranogi ym mywyd diwylliannol y gymuned, i fwynhau'r celfyddydau, a rhannu mewn cynnydd gwyddonol a'i fanteision". Mae hawliau diwylliannol felly'n anwahanadwy oddi wrth hawliau dynol, fel y cydnabyddir yn Erthygl 5 Datganiad ar Amrywiaeth Diwylliannol 2001 UNESCO, y gellir ei ddiffinio fel hawl i gyrchu, i gyfrannu a mwynhau diwylliant. Mae hyn yn cynnwys hawl unigolion a chymunedau i wybod, deall, ymweld â, defnyddio, cynnal, cyfnewid a datblygu treftadaeth ddiwylliannol a mynegiannau diwylliannol, yn ogystal â manteisio ar dreftadaeth ddiwylliannol a mynegiant eraill.

| Newidiadau Syml | Bod yn fwy Anturus | Arwain y Ffordd |
|---|---|---|
| • Mynediad am ddim i'w sicrhau i redwyr Parkrun mewn parciau sy'n eiddo i'r cyhoedd ( H E CC CW I )<br>• Cynllun Noson Allan i gael ei gefnogi – ymrwymo i danysgrifio swm bach o arian i alluogi grwpiau cymunedol i gyrchu a hybu perfformiadau proffesiynol yn eu cymuned ( P E CC CW I ) | • Strategaeth ddiwylliannol i'w datblygu a'i gweithredu ()<br>• Gweithgaredd diwylliannol llawr gwlad i fod ar gael yn lleol i bob dinesydd ( P H E CC CW I )<br>• Perfformiadau a chyfleoedd hamddenol (y rhai hynny sy'n addas ar gyfer pobl ag awtistiaeth/dementia) i fod ar gael ym mhob canolfan diwylliannol ()<br>• Perfformiadau hygyrch/dehongli ym mhob canolfan diwylliannol, yn cynnwys ystyriaeth o ddehongli drwy gyfrwng y Gymraeg/hygyrchedd E CC CW I )<br>• Storïau creadigol i'w casglu (e.e. drwy storïau digidol) a'u cyflwyno i wneuthurwyr polisi i sicrhau bod lleisiau rhanddeiliaid yn cael eu clywed i ddatblygu/mireinio polisi a dangos effaith profiadau diwylliannol ar fywydau unigol ( H E CC CW I<br>• Cynnig diwylliannol lleol i'w hybu – sicrhau nad yw hyn yn cael ei ddyblygu drwy fentrau newydd a ariennir yn gyhoeddus ( H E CC CW I )<br>• Llyfrgelloedd lleol fel partneriaid mewn ymyriadau allweddol i gynorthwyo gwaith a | • Strategaeth Diwylliant Cenedlaethol i'w ddatblygu a'i weithredu mewn partneriaeth â phob sector ( P R H E CC CW G I )<br>• Ymyriadau creadigol i'w defnyddio i gysylltu cymunedau lleol â gwneuthurwyr polisi ( E CC CW I )<br>• Fforwm Amrywiaeth ar gyfer y cynnig diwylliannol yn y wlad/rhanbarth i'w weithredu i sicrhau cynrychiolaeth |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| • Mynediad parhaus am ddim i amgueddfeydd, llyfrgelloedd a mannau gwyrdd<br>( R H E CC CW I ) | dargedwyd gyda ffoaduriaid, pobl yn byw mewn unigedd gwledig, pobl hŷn, rhieni ifanc etc. ()<br>• Mecanweithiau i fod ar gael ar gyfer datblygu casgliadau fel y gall cenedlaethau'r dyfodol weld beth yw natur 'heddiw'. ()<br>• Mannau gwyrdd i gael eu hyrwyddo fel mannau i chwarae ynddynt, dod yn ffit, mwynhau profiadau diwylliannol ( R H E CC CW I )<br>• Rhaglenni gwaith diwylliannol i gael eu cynorthwyo gan seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus neu gyfleoedd teithio llesol e.e. gyda'r hwyr, penwythnosau a Gwyliau'r Banc ( P H CC CW G I )<br>• Archwiliad i'w gynnal o fynediad i gyfleusterau diwylliannol i sefydlu beth yw'r materion pennaf i gynulleidfaoedd, gweithwyr llawrydd a staff a chynllun gweithredu i'w ddatblygu a'i weithredu fel canlyniad i hyn ( P H E CW I )<br>• Buddsoddi mewn darparwyr diwylliant lleol medrus – y sgiliau hyn i'w datblygu/meithrin i sicrhau cysondeb mewn darpariaeth ledled Cymru ( P CW I )<br>• Buddsoddiad mewn gwneud diwylliant yn hygyrch i gymunedau lleol drwy gynlluniau aelodaeth/pasportau i weithgareddau/mannau etc. ( H E CC CW I )<br>• Gweithgareddau diwylliannol i fod ar gael ym mhob cynllun chwarae/digwyddiadau chwarae e.e. blwch crefftau, blwch gwisgo i fyny, i ehangu'r briff tu hwnt i chwaraeon ()<br>• Storïau unigolion i gael eu hadrodd drwy fecanweithiau diwylliannol (storïau digidol, dehongli mewn amgueddfeydd etc.) i ysbrydoli eraill i gael llais a darparu gwahanol bersbectifau ar fywyd Cymru ()<br>• Gofyn i staff cyflenwi presennol a ydynt yn medru'r Gymraeg er mwyn galluogi gwasanaethau diwylliannol e.e. gwersi nofio, gwersi chwaraeon prosiectau hanner tymor i gael eu gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg ( H E CW I )<br>• Treftadaeth i'w gysylltu â chymdeithas gyfoes gydag ail-ddychmygu'r gorffennol yn hytrach na dibyniaeth ar adrodd y stori fel y mae bob amser wedi cael ei hadrodd ( R CC CW I ) | rhaglenni a dehongli amrywiol ( E CC CW G I )<br>• Technoleg ymgolli i'w weithredu ar y cyd i gysylltu pobl, rhannu gwybodaeth ac ymgysylltu'r cymunedau â'r cynnig diwylliannol ( P H E CC CW I )<br>• Cynllun clir cydweithredol lleol i fod ar gael i greu ymgysylltiad yng Nghymru ag amrywiaeth o ddiwylliannau. Hyn i gydnabod beth yw bod yn 'Gymraeg' ( a fydd yn gwahaniaethu o le i le) yn ogystal â'r modd y mae syniadau am ddiwylliant yn cael eu dathlu, eu hailddiffinio a'u gweithredu'n lleol ( E CC CW G I )<br>• Partneriaethau strategol i fod ar gael rhwng y rhai sy'n darparu diwylliant, i sicrhau cydraddoldeb darpariaeth ledled Cymru a haenau o gyfleoedd i weithredu o lawr gwlad i'r elit, yn ogystal â digwyddiadau lleol a chenedlaethol. ( H E CC CW I )<br>• Effaith ymgysylltu |

| | | |
|---|---|---|
| | • Ymgysylltiad gweithredol â chynllun y BBC *Get Creative* ( P H E CC CW I )<br>• Pobl leol yn chwarae rhan mewn creu rhaglenni mewn lleoliadau diwylliannol a gweithgareddau ( P E CC CW I )<br>• Y rhai hynny sy'n ymgyfrannu mewn cynorthwyo/addysgu plant a phobl ifanc i roi arwydd clir iddynt fod yna gyfleoedd allgyrsiol diwylliannol ar gael a chymorth i ddewis gyrfa greadigol ()<br>• Pynciau diwylliannol i'w dysgu ar lefel TGAU a Lefel A ( P H CW I )<br>• Darpariaeth ddiwylliannol mewn sefydliadau addysgol (e.e. Gwasanaethau Cerddorol) i'w cynnal a'u gwneud yn addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain ( P H E CW I )<br>• Canolfannau diwylliannol i'w defnyddio yn hytrach nag ystafelloedd dosbarth i addysgu'r cwricwlwm rheolaidd ( P R H E CC CW I )<br>• Prosiectau cyfranogol i'w datblygu lle mae iaith yn eilaidd i'r gweithgaredd ( H E CC CW I )<br>• Datblygiad gweithgaredd diwylliannol lleol mewn mannau cymunedol i'w gynorthwyo e.e. ar gyfer grwpiau darllen, corau, grwpiau cerdded, achyddiaeth ( R H E CC CW I )<br>• Datblygu cyfleoedd gofal plant ochr yn ochr â gweithgaredd diwylliannol i alluogi rhieni i gyrchu diwylliant yn annibynnol ar weithgareddau ar gyfer teuluoedd ( H E CC CW I )<br>• Rhaglen o ddyddiadau diwylliannol i fod ar gael, gyda phobl broffesiynol lleol yn mynd ag ACau, Cynghorwyr Lleol, Prif Weithredwyr etc. i ddigwyddiad diwylliannol/gweithgaredd a'i drafod gyda nhw i ddatblygu ymwybyddiaeth/dealltwriaeth o effaith. ( H E CW I )<br>• Mecanweithiau i'w datblygu ar gyfer ennyn ymgysylltiad cymunedau lleol â mentrau treftadaeth ( R E CC CW G I )<br>• Cydweithio rhwng darparwyr diwylliant i'w meithrin er mwyn ychwanegu gwerth at gynigion presennol ()<br>• Cydweithio rhwng darparwyr diwylliant i'w ddatblygu i gynorthwyo dysgu, datblygu sgiliau ac effeithlonrwydd posibl ( P CW I ) | diwylliannol i'w ddatblygu a'i hyrwyddo ar y cyd ( H CW I )<br>• Pasport cydweithredol diwylliannol i fod ar gael i olrhain y defnydd a wneir o wasanaethau a hybu cyfleoedd newydd. ( H E CC CW I )<br>• Ymagwedd graddfa fawr tuag at wneud cyfleusterau diwylliannol yn hygyrch i staff, cynulleidfaoedd, cyfranogwyr a phobl broffesiynol diwylliannol i fod ar gael, yn cynnwys ffynhonnell gyfalaf benodol i ddelio â'r datblygiadau adeiladu cyffredinol sydd eu hangen ( P H E CC CW I )<br>• Syniadau i'w datblygu am y dyfodol ar gyfer gwneud gwasanaethau a chyfleusterau diwylliannol yn addas ar gyfer heddiw a chenedlaethau'r dyfodol ( R E CC CW I )<br>• Datblygwyd coridorau diwylliannol ar draws Cymru sy'n defnyddio tir y sector cyhoeddus a'r trydydd sector i |

| | | |
|---|---|---|
| | • Ymddiriedaeth i'w adeiladu gydag amrywiaeth o gymunedau ar draws Cymru i ennill dealltwriaeth ehangach o ddiwylliant presennol Cymru a dulliau o'i ddatblygu, i ennyn eu hymgyfraniad mewn mentrau newydd/dehongliadau i wneud y cynnyrch a'r broses yn fwyfwy perthnasol i Gymru heddiw ac yfory ( Ⓔ CC CW Ⓖ Ⓘ )<br>• Gweithgareddau diwylliannol dros-dro i'w datblygu i sicrhau bod diwylliant yn adlewyrchu gwahanol gymunedau ar draws Cymru a bod iddo le o'u mewn ( Ⓡ Ⓔ CC CW Ⓘ )<br>• Cyfleusterau ysgol i'w defnyddio ar gyfer dysgu cymunedol diwylliannol ehangach/cyfranogiad tu allan i oriau ysgol i gynnwys meysydd chwarae â llifolau ar gyfer defnydd allgyrchol a chymunedol ( Ⓡ Ⓗ Ⓔ CC CW Ⓘ )<br>• Hyblygrwydd yn y cysylltiad â siaradwyr Cymraeg i sicrhau bod pobl yn medru cyfathrebu'n llafar, yn ysgrifenedig, yn ddigidol etc. ( Ⓔ CW Ⓘ )<br>• Rhoi blaenoriaeth i gynhwysedd ac amrywiaeth o gyfranogwyr mewn gweithgaredd diwylliannol, yn arbennig y rhai a welir fel gweithgareddau elitaidd, e.e. golff, opera ( Ⓟ Ⓗ Ⓔ CC CW Ⓘ )<br>• Mannau gwyrdd i'w defnyddio ar gyfer gweithgaredd diwylliannol gyda phartneriaethau arloesol i fod ar gael i gyrraedd cymunedau gwledig Cymru ( Ⓟ Ⓡ Ⓗ Ⓔ CC CW Ⓘ ) | gysylltu safleoedd diwylliannol â sefydliadau creadigol ( Ⓟ Ⓡ Ⓗ Ⓔ CC CW Ⓘ ) |

DRAFT